



UK Government

Ymgynghoriad ar y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer cynhyrchu ynni ymasiad (EN-8)

Y dull cynllunio arfaethedig ar gyfer seilwaith
ynni ymasiad yng Nghymru a Lloegr

Dyddiad cau: 17 Awst 2026



© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Cynnwys

Pam rydyn ni'n ymgynghori _____	4
Manylion yr ymgynghoriad _____	4
Sut i ymateb _____	5
Cyfrinachedd a diogelu data _____	5
Sicrhau ansawdd _____	6
Cefndir _____	7
Beth sy'n cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori? _____	8
Datganiad Polisi Cenedlaethol Drafft (DPC) ar gyfer cynhyrchu ynni ymasiad (EN-8) ____	8
Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) _____	8
Crynodeb Annhechnegol o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd _____	8
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) _____	9
Rhan A: Cwmpas ac eglurder _____	10
Rhan B: Ystyriaethau asesu _____	11
Rhan C: Sylwadau pellach _____	13

Gwybodaeth gyffredinol

Pam rydyn ni'n ymgynghori

Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i ymgynghoriad cychwynnol ar y dull arfaethedig o leoli cyfleusterau ynni ymasiad.¹ Cadarnhaodd yr ymateb hwn y dylid alinio a chynnal y broses gynllunio ar gyfer cyfleusterau ynni ymasiad â chyfleusterau cynhyrchu cymhleth eraill trwy ddatblygu Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer cynhyrchu ynni ymasiad.

Mae'r Llywodraeth bellach yn ymgynghori ar Ddatganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer Cynhyrchu Ynni Ymasiad (EN-8).

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ailymweld â chwestiynau cynharach ynghylch a oes angen Datganiad Polisi Cenedlaethol penodol ar gyfer ymasiad, a ddylai fod yn annibynnol ar dechnoleg neu a ddylai fabwysiadu dull safle agored. Yn lle hynny, mae'n canolbwyntio ar gynnwys penodol yr EN-8 drafft a dogfennau eraill a gyhoeddwyd ochr yn ochr â hynny.

Manylion yr ymgynghoriad

Cyhoeddwyd: 8 Mehefin 2026

Ymateb erbyn: 17 Awst 2026

Ymholiadau i: fusionregulation@energysecurity.gov.uk

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad at y cyfeiriad e-bost hwn, mae gwybodaeth am sut mae ymateb isod. **Cyfeirnod yr ymgynghoriad:** Ymgynghoriad ar y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer cynhyrchu ynni ymasiad (EN-8)

Cynulleidfaoedd:

Mae'r llywodraeth eisiau clywed gan aelodau'r cyhoedd, diwydiant, y byd academiaidd, sefydliadau anllywodraethol ac unrhyw sefydliad neu gorff cyhoeddus arall.

Ehangder tiriogaethol:

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag arfer pwerau yng Nghymru a Lloegr. Nid yw Deddf Cynllunio 2008 a system caniatâd Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn berthnasol i'r Alban na Gogledd Iwerddon.

¹ Yr Adran Diogeled Ynni a Sero Net, 'Fusion energy facilities: new National Policy Statement and proposals on siting' (Gorffennaf 2025)

Sut i ymateb

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r Ymgynghoriad hwn drwy'r platfform e-ymgynggori ar-lein, Citizen Space.

Yn yr Ymgynghoriad hwn, mae'r llywodraeth eisiau clywed gan aelodau'r cyhoedd, diwydiant, sefydliadau anllywodraethol ac unrhyw sefydliad neu gorff cyhoeddus arall. Wrth ymateb, nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, gwnewch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle bo'n berthnasol, sut y gwnaethoch chi gasglu barn yr aelodau.

Bydd eich ymateb yn fwyaf defnyddiol os yw wedi'i lunio mewn ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnwyd, er bod croeso hefyd i sylwadau a thystiolaeth bellach. Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwyslais ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadl a thystiolaeth, yn hytrach na mynegiadau syml o gefnogaeth neu wrthwynebiad.

Mae ymgynghoriadau'n derbyn lefel uchel o ddiddordeb ar draws llawer o sectorau. Mae defnyddio'r gwasanaeth ar-lein yn cynorthwyo ein dadansoddiad o'r ymatebion yn fawr, gan alluogi ystyriaeth fwy effeithlon ac effeithiol o'r materion a godwyd. Felly, rydym yn annog ymatebion yn gryf drwy Citizen Space.

Ymatebwch ar-lein yn: <https://energygovuk.citizenspace.com/energy-security/draft-nps-fusion-energy-generation-en8>

Os nad ydych yn gallu defnyddio Citizens Space, cysylltwch â ni drwy e-bost neu drwy'r post i drafod dulliau eraill o ymateb:

E-bostiwch: fusionregulation@energysecurity.gov.uk

Ysgrifennwch at:

Fusion regulation
Department for Energy Security and Net Zero
3 – 8 Whitehall Place
London
SW1A 2EG

Cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a ddarparwch mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth personol, gael ei datgelu yn unol â deddfwriaeth y DU (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi eisiau i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dywedwch wrthym, ond byddwch yn ymwybodol na allwn warantu cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd

ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG yn cael ei ystyried gennym fel cais cyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl gyfreithiau diogelu data cymwys. Gweler ein [polisi preifatrwydd](#).

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar [GOV.UK](#). Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau neu sefydliadau a ymatebodd, ond nid enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill pobl.

Sicrhau ansawdd

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn unol ag [egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth](#).

Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at: bru@energysecurity.gov.uk.

Cyflwyniad

Cefndir

Mae Datganiad Polisi Cenedlaethol (DPC) yn ddogfen statudol a ddynodwyd o dan Ddeddf Cynllunio 2008 sy'n nodi polisi'r Llywodraeth ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd datblygu ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, a elwir yn brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol (NSIPau).

Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar gyfer Ynni (EN 1) yn nodi polisi seilwaith ynni'r Llywodraeth, gan gynnwys yr achos angen am seilwaith ynni carbon isel newydd a'r Flaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol a roddir i seilwaith o'r fath.² Mae DPCau sy'n benodol i dechnoleg, fel drafft EN 8, yn rhan o'r gyfres hon ac yn darparu polisi ychwanegol, wedi'i dargedu i fynd i'r afael â nodweddion penodol mathau penodol o seilwaith ynni lle mae hyn yn angenrheidiol i gefnogi gwneud penderfyniadau cyson a chymesur.

Mae'r Llywodraeth wedi nodi datblygu ynni ymasiad fel blaenoriaeth strategol, a adlewyrchir yng Nghynllun Sector Diwydiannau Ynni Glân 2025 y DU, a amlygodd ymasiad fel is-sector blaenoriaeth.³ Mae Strategaeth Ymasiad y DU 2026 yn mynd ymhellach i nodi amcan y llywodraeth i gyflymu twf diwydiant ymasiad y DU er mwyn manteisio ar fanteision economaidd a strategol ymasiad.⁴ Mae hyn yn adeiladu ar fuddsoddiad record y llywodraeth o dros £2.5 biliwn mewn ymchwil a datblygu ymasiad, gan gynnwys £1.3 biliwn i ddatblygu prototeip gorsaf bŵer ymasiad Sfferig Tokamak ar gyfer Cynhyrchu Ynni (STEP).⁵ Wrth i'r sector ymasiad symud o ymchwil a datblygu tuag at arddangos a defnyddio, disgwylir y bydd cynigion seilwaith ynni ymasiad yn cael eu cyflwyno o fewn y system gynllunio.

Ym mis Gorffennaf 2025, ymatebodd y Llywodraeth i ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar gyfer cynhyrchu ynni ymasiad, ochr yn ochr â chynigion ar y dull o leoli cyfleusterau ynni ymasiad.⁶ Cadarnhaodd yr ymateb hwn gefnogaeth gref i ddatblygu DPC penodol ar gyfer ymasiad, ac na ddylai DPC o'r fath nodi safleoedd penodol ar gyfer seilwaith ynni ymasiad. Cadarnhaodd hefyd y dylai DPC ymasiad fod yn agnostig o ran technoleg (yn berthnasol i seilwaith ymasiad waeth beth fo'r dull ymasiad penodol neu ddyluniad dyfais arfaethedig) ac yn agnostig o ran allbwn (gan gydnabod y gallai seilwaith ynni ymasiad yn y dyfodol gynhyrchu ynni thermol yn ogystal â/yn lle ynni trydanol), er mwyn cynyddu hyblygrwydd i ddatblygwyr ac ymatebolrwydd i arloesedd mewn dylunio ymasiad. Yn ogystal, cadarnhaodd na fyddai unrhyw gyfyngiadau dwysedd poblogaeth leol yn

² Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, '[Overarching National Policy Statement for energy \(EN-1\), 2025](#)' (Ionawr 2026)

³ Llywodraeth y DU, '[Industrial Strategy: Clean Energy Industries Sector Plan](#)' (Mehefin 2025)

⁴ Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, '[A new energy revolution: The UK's plan for delivering fusion energy](#)' (Mawrth 2026)

⁵ Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, '[Funding breakdown for fusion energy](#)' (Mawrth 2026)

⁶ Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, '[Fusion energy facilities: new National Policy Statement and proposals on siting](#)' (Gorffennaf 2025)

berthnasol i seilwaith ynni ymasiad, gan adlewyrchu ei risg radiolegol isel.⁷ Datblygwyd Drafft EN 8 mewn ymateb i ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.

Beth sy'n cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer Cynhyrchu Ynni Ymasiad (EN-8), ac asesiadau amgylcheddol perthnasol sy'n bodloni gofynion statudol.

Datganiad Polisi Cenedlaethol Drafft (DPC) ar gyfer cynhyrchu ynni ymasiad (EN-8)

Mae Drafft EN 8 yn nodi polisi'r Llywodraeth ar gyfer asesu a phenderfynu ar geisiadau am ganiatâd datblygu ar gyfer seilwaith ynni ymasiad o arwyddocâd cenedlaethol. Mae'n rhan o'r gyfres ehangach o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol ynni a dylid ei ddarllen ar y cyd ag EN-1 a Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol eraill, fel EN-5 sy'n ymwneud â seilwaith rhwydweithiau trydan.⁸

Cadarnhawyd yr angen am un deg naw o ystyriaethau yn nrafft EN-8, wedi'u grwpio yn themâu Amgylcheddol, Diogelwch a Sicrwydd, Gweithredol a Datblygiadol, yn ymateb ymgynghori'r Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2025.⁹ Mae rhai o deitlau'r ystyriaethau hyn wedi'u diwygio ers hynny i adlewyrchu'n well y cynnwys sydd bellach yn cael ei gynnig. Ar gyfer y pedwar ar bymtheg o ystyriaethau penodol i gyfuno hyn, mae drafft EN-8 yn egluro sut y dylid cymhwyso'r egwyddorion asesu generig neu'r effeithiau a nodir yn EN-1 a ble y dylid cymryd dulliau ychwanegol neu wahanol.

Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG)

Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) yn asesu'r effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol tebygol o weithredu drafft EN 8, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni 2004. Mae'n ystyried cylch bywyd cyfan seilwaith ynni ymasiad ac yn asesu effeithiau tebygol drafft EN 8 yn erbyn set o amcanion cynaliadwyedd, gan ystyried mesurau lliniaru. Mae'r AoG hefyd, yn ôl yr angen, yn asesu dewisiadau amgen rhesymol i'r dull a nodir yn nrafft EN-8.

Crynodeb Annhechnegol o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

Cyhoeddir Crynodeb Annhechnegol o'r AoG ochr yn ochr â'r asesiad llawn. Mae'n rhoi trosolwg hygyrch o'r fethodoleg, canfyddiadau allweddol a chasgliadau'r AoG ar gyfer cynulleidfaoedd annhechnegol.

⁷ Awdurdod Ynni Atomig y DU, '[Technology Report – Safety and Waste Aspects of Fusion Power Plants](#)' Rhifyn 1, tudalen 31 (Medi 2021)

⁸ Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, '[National Policy Statements for energy infrastructure](#)' (Ionawr 2026)

⁹ Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, '[Fusion energy facilities: new National Policy Statement and proposals on siting](#)' (Gorffennaf 2025)

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) wedi'i gynnal yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae'n asesu a yw gweithredu drafft EN 8 yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar integriti safleoedd cynefinoedd.

Cwestiynau ymgynghori

Rhan A: Cwmpas ac eglurder

Mae'r cwestiynau canlynol yn ceisio barn ynghylch a yw drafft EN 8 yn darparu fframwaith cynllunio clir, cydlynol a phriodol ar gyfer seilwaith ynni ymasiad wrth ei ddarllen ochr yn ochr ag EN-1 a Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol eraill (fel EN-5 sy'n ymwneud â seilwaith rhwydweithiau trydan).

- 1. A yw drafft EN-8, pan gaiff ei ddarllen ochr yn ochr ag EN-1 (a Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol eraill), yn darparu fframwaith cynllunio clir, cydlynol a phriodol ar gyfer seilwaith ynni ymasiad?**

Dewisiadau ymateb:

- Ydi
- Yn rhannol
- Nac ydi
- Ddim yn siŵr

Eglurwch eich ateb, gan ganolbwyntio ar ba mor eglur, rhesymegol a phriodol yw'r fframwaith yn gyffredinol. Dylid rhoi adborth manwl ar adrannau penodol o'r EN-8 drafft mewn ymateb i gwestiynau dilynol.

Rhan B: Rôl, cwmpas ac egwyddorion asesu

Mae Adrannau 1 a 2 o'r EN-8 drafft yn gosod cefndir, rôl a chwmpas y Datganiad Polisi Cenedlaethol, a'r egwyddorion asesu sy'n berthnasol i seilwaith ynni ymasiad.

- 2. A yw Adrannau 1 a 2 o'r EN-8 drafft yn ddigon eglur o ran rôl, cwmpas ac egwyddorion asesu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer ynni ymasiad?**

Dewisiadau ymateb:

- Ydi
- Yn rhannol
- Nac ydi
- Ddim yn siŵr

Os dewisoch chi 'Nac ydi' neu 'Yn rhannol', esboniwch pa newidiadau fyddai'n fuddiol, gan gyfeirio at adrannau penodol lle bo modd.

Rhan C: Ystyriaethau asesu

Mae'r cwestiwn canlynol yn ceisio barn ar yr ystyriaethau asesu penodol i ymasiad a nodir yn Adran 3 o ddrafft EN 8. Mae drafft EN 8 wedi'i gynllunio i fod yn berthnasol i bob seilwaith ynni ymasiad, h.y., mae wedi'i gynllunio i fod yn annibynnol ar dechnoleg ac allbwn.

3. **A yw'r dulliau a nodir ar gyfer pob ystyriaeth yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer yr holl seilwaith ynni ymasiad, gan egluro beth, os o gwbl, sy'n ofynnol y tu hwnt i ofynion EN-1?**

Dewisiadau ymateb:

- Ydyn
- Yn rhannol
- Nac ydyn
- Ddim yn siŵr

Os dewisoch chi 'Nac ydyn' neu 'Yn rhannol', rhowch fanylion, gan nodi unrhyw ystyriaethau lle gallai'r dull fod yn annigonol neu'n amhriodol a pha newidiadau y byddech chi'n eu hawgrymu.

Rhan D: Asesiadau amgylcheddol

Mae'r cwestiwn canlynol yn ceisio barn ar gasgliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gynhaliwyd ar gyfer drafft EN 8. Mae'r asesiadau hyn wedi'u cynnal ar lefel Datganiad Polisi Cenedlaethol ac nid ydynt yn asesu safleoedd na phrosiectau penodol. Felly gwahoddir ymatebwyr i ystyried a yw'r asesiadau'n rhesymol ac yn briodol ar gyfer dogfen bolisi lefel cynllun, yn hytrach na rhoi sylwadau ar effeithiau tebygol prosiectau ynni ymasiad unigol.

4. **A yw'r asesiadau amgylcheddol (Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) ar gyfer drafft EN-8 yn rhesymol ac yn briodol?**

Dewisiadau ymateb:

- Ydyn
- Yn rhannol
- Nac ydyn
- Ddim yn siŵr

Os dewisoch chi 'Nac ydyn' neu 'Yn rhannol', rhowch fanylion, gan gyfeirio at yr adran(nau) penodol rydych chi'n sôn amdanynt yn eich ymateb.

Rhan E: Sylwadau pellach

5. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar ddrafft EN-8?

Dewisiadau ymateb:

- Oes
- Nac oes

Os dewisoch chi 'Oes', rhowch sylwadau pellach, gan gyfeirio at adran(nau) penodol lle bo'n berthnasol.

Camau nesaf

Amserlen	Cam
Haf 2026	Ymgynghoriad cyhoeddus.
Hydref 2026	Dadansoddi ymatebion i ymgynghoriadau. Craffu seneddol.
Gaeaf 2026	Ymgorffori adborth o ymgynghoriadau cyhoeddus a chraffu seneddol yn nrafft EN-8.
Gwanwyn 2027	Gosod yr EN-8 terfynol gerbron y senedd i'w ystyried yn ffurfiol. Cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad cyhoeddus. EN-8 wedi'i ddynodi (yn dod i rym). Cyhoeddi AoG Ôl-fabwysiadu.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o: www.gov.uk/government/consultations/draft-national-policy-statement-for-fusion-energy-generation-en-8

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn: fusionregulation@energysecurity.gov.uk

Os oes angen fersiwn o'r ddogfen hon arnoch mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost at alt.formats@energysecurity.gov.uk. Dywedwch wrthym pa fformat sydd ei angen arnoch. Bydd o gymorth i ni os dywedwch pa dechnoleg gynorthwyol rydych chi'n ei defnyddio.